# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 2

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau a chynlluniau cyrff llywodraethu*

### 28 Dyletswydd awdurdodau lleol i benderfynu pa un ai i gymryd drosodd gynlluniau cyrff llywodraethu ai peidio

(1) Mae is-adran (3) yn gymwys pan—

(a) bo corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach yn cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc o dan adran 12(1) neu 12(3), a

(b) bo unrhyw un neu ragor o'r personau a grybwyllir yn is-adran (2) yn gofyn i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc ystyried cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun.

(2) Y personau yw—

(a) y plentyn neu'r person ifanc,

(b) yn achos plentyn, rhiant y plentyn, neu

(c) y corff llywodraethu.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal cynllun datblygu unigol a gynhelir gan y corff llywodraethu.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(4) Pan fo corff llywodraethu yn gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn am y cais a gwahodd sylwadau.

(5) Pan fo plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc yn gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i'r corff llywodraethu am y cais a gwahodd sylwadau oddi wrth y corff llywodraethu.

(6) Caiff awdurdod lleol benderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal cynllun a gynhelir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir os yw'n penderfynu o dan adran 27(6) y dylai'r cynllun gael ei ddiwygio.

(7) Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc, yn achos plentyn, rhiant y plentyn, a'r corff llywodraethu am—

(a) penderfyniad o dan is-adran (3) neu (6), a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(8) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun—

(a) mae i gael ei drin fel pe bai'n cael ei gynnal gan yr awdurdod o dan adran 14 at ddibenion y Rhan hon, a

(b) nid yw'n ofynnol i'r corff llywodraethu ei gynnal,

o'r dyddiad y rhoddir hysbysiad o dan is-adran (7).

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** A. 28(2)(a) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **37(1)(n)**

**C2** A. 28(2)(b) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **35(1)(j)**

**C3** A. 28(4)(5) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **37(1)(n)**

**C4** A. 28(4)(5) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **35(1)(j)**

**C5** A. 28(7) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **35(1)(j)**

**C6** A. 28(7) addaswyd (1.9.2021) gan Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021 (O.S. 2021/401), rhlau. 1(2), **37(1)(n)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 28 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I2** A. 28 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3**, 4 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/735, ergl. 2(2)(a) ac O.S. 2021/938, ergl. 2(3))

**I3** A. 28 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6**, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/735, ergl. 2(3)(a) ac O.S. 2021/938, ergl. 2(4)(5))

**I4** A. 28 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(c)**, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4))

**I5** A. 28 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2**)

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**I6** A. 28 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3**)

**I7** A. 28 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/892, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 2, 4-18)

**I8** A. 28 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21)

**I9** A. 28 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/893, **ergl. 4** (ynghyd ag ergl. 1(2))

**I10** A. 28 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/896, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-22)

**I11** A. 28 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/898, **erglau. 2(c)**, 3

**I12** A. 28 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/895, **erglau. 3(c)**, 4

**I13** A. 28 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/894, **ergl. 3(c)**

**I14** A. 28 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/891, **ergl. 3(c)** (ynghyd ag erglau. 4-25)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- s. 28 amendment to earlier affecting provisions S.I. 2021/1243, arts. 4-23 by S.I. 2023/932 art. 2
- s. 28 amendment to earlier affecting provisions S.I. 2021/1244, arts. 4-21 by S.I. 2023/932 art. 3
- s. 28 amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/891, arts. 4-25 by S.I. 2023/932 art. 4
- s. 28 amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/896, arts. 4-22 by S.I. 2023/932 art. 5
- s. 28 amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/897, arts. 4-21 by S.I. 2023/932 art. 6
- s. 28 coming into force by S.I. 2022/893 art. 2(c)
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/373 by S.I. 2021/735 art. 2
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/373 by S.I. 2021/938 art. 2
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/381 by S.I. 2021/516 art. 2
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/381 by S.I. 2021/516 art. 3
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/381 by S.I. 2021/735 art. 3
- specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2021/383 by S.I. 2021/735 art. 4
- specified provision(s) coming into force by S.I. 2021/381 art. 23 (This commencement not applied to legislation.gov.uk. S.I. 2021/381 revoked (12.8.2021) by S.I. 2021/938, art. 3)
- specified provision(s) coming into force by S.I. 2021/383 art. 23 (This commencement not applied to legislation.gov.uk. S.I. 2021/383 revoked (12.8.20210) by S.I. 2021/938, art. 4)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 4(3)(ca)(cb) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 39(2)
- s. 5(1)(da) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 39(3)
- s. 65(4)(da)(db) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 39(5)
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2021/1243, arts. 4-23 by S.I. 2023/932 art. 2
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2021/1244, arts. 4-21 by S.I. 2023/932 art. 3
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/891, arts. 4-25 by S.I. 2023/932 art. 4
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/896, arts. 4-22 by S.I. 2023/932 art. 5
- Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) amendment to earlier affecting provisions S.I. 2022/897, arts. 4-21 by S.I. 2023/932 art. 6

– Sch. 1 para. 4(32)(a)(i)para. 4(32)(a)(ii)(b) coming into force by S.I. 2022/893 art. 2(o)(xi)